

E5. Sicrhau bod y pethau rydych chi'n eu gwneud yn lleihau risgiau i iechyd a diogelwch

Nodwch: Cymerwyd yr uned hon o'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol a ddatblygwyd gan ENTO, y corff sy'n gosod safonau ar gyfer cyflogaeth a meysydd cysylltiedig. Mae fformat yr uned yn wahanol i'r fformat a ddatblygwyd gan y Ganolfan Safonau Rheolaeth (MSC) ar gyfer yr unedau y mae'r MSC wedi'u datblygu.

Dyma elfennau'r uned hon:

- 1 Nodi'r peryglon a gwerthuso'r risgiau yn eich gweithle
- 2 Lleihau'r risgiau i iechyd a diogelwch yn eich gweithle

Trosolwg ar yr Uned

Mae deall yr ymadroddion "perygl" a "risg" yn sylfaenol i'r uned hon. Mae'r rhain wedi'u diffinio drosodd ac mae'n BWYSIG IAWN eich bod yn eu deall cyn bwrw ymlaen â'r Uned.

Mae'r uned hon ar gyfer:

Pawb yn y gwaith - (p'un a ydynt yn cael cyflog, ddim yn cael cyflog, yn amser llawn neu'n rhan amser). Mae Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 yn cwmpasu "pob unigolyn" p'un a yw'n gyflogwr, yn weithiwr, yn weithiwr hunangyflogedig, yn gontractwr, ac ati. Ymhlith pethau eraill, mae'r Ddeddf yn ceisio sicrhau iechyd, diogelwch a lles pobl wrth iddynt weithio, a diogelu pobl eraill rhag risgiau i iechyd a diogelwch sy'n deillio o weithgareddau pobl yn y gwaith. Nid yw'r uned hon yn gofyn i'r ymgeisydd ymgymryd ag asesiad risg llawn; mae'n ymwneud â sylweddoli bod yna risgiau sylweddol yn y gweithle, gwybod sut i'w nodi a delio â nhw.

Mae'r uned hon yn cwmpasu:

Dyletswyddau iechyd a diogelwch pawb yn y gweithle. Mae'n disgrifio'r cymwyseddau sy'n ofynnol i sicrhau:

- nad yw'ch gweithredoedd eich hun yn creu unrhyw risgiau iechyd a diogelwch,
- nad ydych yn anwybyddu risgiau sylweddol yn eich gweithle, ac
- eich bod yn cymryd camau call i gywiro pethau, gan gynnwys: adrodd ar sefyllfaoedd sy'n achosi perygl i bobl yn y gweithle a cheisio cyngor

Bydd angen i chi ddangos y pethau canlynol:

Yn elfen 1 bydd angen i chi ddangos eich bod yn deall y gofynion a pholisïau iechyd a diogelwch yn y gweithle, a'ch bod yn gwirio'ch arferion gweithio eich hun a'r ardal rydych yn gweithio ynddi rhag ofn y bydd unrhyw risg o niwed i chi neu bobl eraill. Dylech allu nodi'r risg sy'n deillio o unrhyw beryglon rydych wedi'u nodi a gwybod pa rai rydych chi'n gallu delio â nhw'n ddiogel eich hun, a pha rai y mae'n rhaid i chi ddwyn sylw'r "unigolyn cyfrifol" atynt.

E5. Sicrhau bod y pethau rydych chi'n eu gwneud yn lleihau risgiau i iechyd a diogelwch

Mae **Elfen 2** yn gofyn i chi ddangos eich bod wedi cymryd camau i leihau'r peryglon iechyd a diogelwch hynny y gallech ddod i gysylltiad â nhw wrth i chi weithio. Mae'n cwmpasu cyflawni tasgau yn ddiogel ac yn unol â chyfarwyddiadau a gofynion y gweithle.

Dyma sydd yn rhaid i chi ei wneud nesaf:

Darllen yr adran "Geiriau ac Ymadroddion Allweddol". Mae'n esbonio sut y defnyddiwyd rhai geiriau ac ymadroddion yn yr uned hon, a bydd yn eich helpu i'w deall yn fwy rhwydd.

E5. Sicrhau bod y pethau rydych chi'n eu gwneud yn lleihau risgiau i iechyd a diogelwch

Geiriau ac ymadroddion allweddol y gallech eu gweld yn cael eu defnyddio'n aml yn unedau Iechyd a Diogelwch ar gyfer Pobl yn y Gwaith

Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) yw'r corff a benodwyd i gefnogi a gorfodi cyfraith iechyd a diogelwch. Maent wedi diffinio dau gysyniad pwysig fel a ganlyn:

Perygl "Ystyr perygl yw unrhyw beth a all achosi niwed".

Risg "Risg yw'r siawns, mawr neu fach, y caiff rhywun ei niweidio gan y perygl".

Gall unrhyw beth bron fod yn berygl, ond nid oes yn rhaid iddo ddod yn risg. Er enghraifft:

- 1 Mae cebl trydan sy'n llusgo o ddarn o gyfarpar yn berygl. Os yw'n llusgo ar draws tramwyfa, mae risg uchel y bydd rhywun yn baglu drosto, ond os yw'n gorwedd ar hyd wal allan o'r ffordd, mae'r risg yn llawer llai.
- 2 Mae cemegau gwenwynig neu fflamadwy sydd wedi'u storio mewn adeilad yn berygl, ac oherwydd eu natur maent yn gallu peri risg uchel. Fodd bynnag, os byddant yn cael eu cadw mewn storfa ddiogel a gynlluniwyd yn iawn, ac os bydd pobl wedi'u hyfforddi yn iawn ac yn meddu ar gyfarpar addas, mae'r risg llawer yn llai na phetaent yn cael eu cadw mewn gweithdy prysur i unrhyw un eu defnyddio - neu eu camddefnyddio.
- 3 Mae bwlb golau sydd wedi methu yn berygl. Os mai un bwlb allan o nifer mewn ystafell yn unig sydd wedi methu, nid oes llawer o risg, ond os mai'r unig olau ar dwll grisiau sy'n methu, mae'n risg uchel iawn. Efallai y bydd newid y bwlb yn risg uchel, os yw'n uchel i fyny, neu os yw'r pŵer yn dal i fod wedi'i gynnu, neu'n risg isel os yw mewn lamp bwrdd a'r plwg wedi'i ddatgysylltu.
- 4 Mae blwch o ddeunydd trwm yn berygl. Mae'n risg uwch i rywun sy'n ei godi â'i ddwylo nag ydyw i rywun sy'n defnyddio dyfais mecanyddol i'w godi yn gywir.

Gweithle: Defnyddir y gair hwn i ddisgrifio un ardal, neu fwy nag un ardal, lle byddwch yn gwneud eich gwaith.

Arferion gweithio: Unrhyw weithgareddau, gweithdrefnau, deunyddiau neu offer, neu dechnegau gweithio byddwch yn eu defnyddio wrth eich gwaith. Yn yr uned hon mae hefyd yn cynnwys unrhyw arferion gweithio da a fydd yn cael eu hesgeuluso a allai fod yn fgygythiad i iechyd a diogelwch.

Polisiau'r gweithle: Mae hyn yn cwmpasu'r ddogfennaeth mae'r cyflogwr yn ei pharatoi ar y gweithdrefnau i'w dilyn sy'n ymwneud â materion iechyd a diogelwch. Gallai fod

E5. Sicrhau bod y pethau rydych chi'n eu gwneud yn lleihau risgiau i iechyd a diogelwch

yn ddatganiad polisi diogelwch y cyflogwr, neu'n ddatganiadau iechyd a diogelwch cyffredinol a gweithdrefnau diogelwch ysgrifenedig yn cwmpasu agweddau ar y gweithle y dylid tynnu sylw'r gweithwyr (a "phobl eraill") atynt.

Pobl eraill:

Mae'r ymadrodd hwn yn cyfeirio at bawb y mae Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith yn eu cwmpasu, gan gynnwys: ymwelwyr, y cyhoedd, cydweithwyr, contractwyr, cleientiaid, cwsmeriaid, cleifion, myfyrwyr, disgyblion.

Cyflwyniad personol:

Mae hyn yn cynnwys hylendid personol; defnyddio cyfarpar diogelu personol; dillad ac ategolion sy'n addas i'r gweithle penodol.

Unigolion cyfrifol:

Yr unigolyn neu'r unigolion yn y gwaith y dylech roi gwybod iddynt am unrhyw faterion iechyd a diogelwch neu beryglon. Gallai fod yn oruchwyliwr, yn rheolwr atebol neu'n gyflogwr.

E5. Sicrhau bod y pethau rydych chi'n eu gwneud yn lleihau risgiau i iechyd a diogelwch

Pwyntiau allweddol ynglyn â deddfwriaeth a rheoliadau Iechyd a Diogelwch

"Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974"

Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 yw'r prif ddarn o ddeddfwriaeth a ddefnyddir i wneud bron pob un o'r rheoliadau eraill. O'r herwydd, dyma'r unig ddarn o ddeddfwriaeth y cyfeirir ato'n benodol yn yr Uned hon.

Mae gan gyflogwyr ddyletswydd gyfreithiol dan y Ddeddf hon i sicrhau, cyhyd ag y bo'n rhesymol ymarferol, iechyd, diogelwch a lles yn y gwaith y bobl maent yn gyfrifol amdanynt a'r bobl y gallai'r gwaith maent yn ei wneud effeithio arnynt.

Dan y Ddeddf hon mae hefyd yn bwysig bod yn ymwybodol bod gan bawb yn y gwaith, yn ogystal â chyflogwyr, ddyletswydd i gymryd gofal rhesymol i osgoi niweidio eu hunain neu bobl eraill trwy eu gwaith.

Dylid lleihau risgiau "cyhyd ag y bo'n rhesymol ymarferol". Mae'r ymadrodd hwn yn golygu bod deiliad y ddyletswydd (y cyflogwr yn y rhan fwyaf o achosion) yn gallu cydbwysu'r gost yn erbyn gradd y risg, ond yn amlwg byddai unrhyw Arolygwyr Iechyd a Diogelwch yn disgwyl y dilynir arferion da perthnasol.

Yn ôl y Ddeddf:

Rhaid i gyflogwyr ddiogelu cyhyd ag y bo'n rhesymol ymarferol, iechyd, diogelwch a lles yn y gwaith yr holl bobl sy'n gweithio iddynt a "phobl eraill". Mae hyn yn arbennig o berthnasol i ddarparu a chynnal a chadw offer a systemau gwaith yn ddiogel, ac mae'n cwmpasu pob peiriant, cyfarpar a sylweddau a ddefnyddir.

Hefyd mae gan bobl yn y gwaith ddyletswydd dan y Ddeddf i gymryd gofal rhesymol i osgoi niwed i'w hunain neu bobl eraill oherwydd eu harferion gweithio, a chydweithio gyda chyflogwyr a phobl eraill wrth gyflawni gofynion statudol. Mae'r Ddeddf hefyd yn gofyn i weithwyr beidio â chamddefnyddio unrhyw beth a ddarparwyd i ddiogelu eu hiechyd, diogelwch neu les er mwyn cydymffurfio â'r Ddeddf, nag ymyrryd ag unrhyw beth o'r fath.

Deddfwriaeth Arall

Ceir lluo o reoliadau iechyd a diogelwch a chodau ymarferol sy'n effeithio ar bobl yn y gwaith. Er enghraifft, ceir rheoliadau i'r rheiny sy'n gweithio â thrydan, neu'n gweithio ar brosiectau adeiladu, yn ogystal â rheoliadau sy'n cwmpasu swm yn y gwaith, trafod â llaw, gweithio gydag unedau arddangos gweledol, neu ddelio â sylweddau sy'n beryglus i iechyd, ac ati. Mae'r gofynion penodol ar gyfer unrhyw un, neu bob un, o'r rhain ar gael o swyddfeydd lleol HSE.

Oherwydd bod llawer o'r rheoliadau hyn yn berthnasol i weithleoedd neu arferion gweithio penodol yn unig, ni chyfeirir at unrhyw un o'r rheoliadau yma yn benodol yn y Gofynion Gwybodaeth. Pan ddefnyddir yr ymadrodd "eich cyfrifoldebau am iechyd a diogelwch sy'n ofynnol dan unrhyw ddeddfwriaeth benodol sy'n cwmpasu rôl eich swydd" bwriedir i hyn fod yn berthnasol i'r darnau penodol hynny o ddeddfwriaeth sy'n bwysig i'ch gweithle chi a/neu'ch arferion gweithio chi y dylech chi allu dod o hyd i fanylion amdanynt.

E5. Sicrhau bod y pethau rydych chi'n eu gwneud yn lleihau risgiau i iechyd a diogelwch

Gofynion Gwybodaeth:

Gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n hanfodol i'r Uned hon:

Er mwyn sicrhau bod eich gweithredoedd eich hun yn lleihau risgiau i Iechyd a Diogelwch, dylech wybod a deall yr agweddau canlynol ar ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch:

- a eich dyletswyddau cyfreithiol ar gyfer iechyd a diogelwch yn y gweithle fel sy'n ofynnol dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974
- b eich dyletswyddau ar gyfer iechyd a diogelwch fel y mae unrhyw ddeddfwriaeth benodol sy'n cwmpasu rôl eich swydd yn eu diffinio

Er mwyn sicrhau bod eich gweithredoedd eich hun yn lleihau risgiau i Iechyd a Diogelwch, dylech wybod a deall y pethau canlynol sy'n gysylltiedig â risgiau i iechyd a diogelwch:

- a pa beryglon allai fodoli yn eich gweithle
- b y risgiau iechyd a diogelwch penodol a allai fod yn bresennol yn rôl eich swydd eich hun, a'r rhagofalon y mae'n rhaid i chi eu cymryd
- c pwysigrwydd aros yn effro i bresenoldeb peryglon yn y gweithle cyfan
- ch pwysigrwydd delio â risgiau neu ddwyn sylw atynt yn ddiymdroi
- d gofynion y rhagofalon a chyfarwyddyd arnynt

Gofynion Tystiolaeth:

- Dylech fodloni'r Aseswr eich bod yn gallu cyflawni'r Safonau yn gyson.
- Dylid tynnu tystiolaeth o arferion gwaith go iawn, a rhaid darparu tystiolaeth ar draws yr holl feini prawf perfformiad yn y ddwy elfen. Rhaid i'ch Aseswr weld tystiolaeth o berfformiad ar gyfer y nifer o eitemau yn yr ystod a restrir sy'n briodol i gyd-destun eich gweithle eich hun, fel y manylir arnynt yn y ddwy elfen.
- Gellir defnyddio atebion i gwestiynau a ffurfiau eraill ar dystiolaeth hefyd i ddangos eich bod yn deall y wybodaeth hanfodol sy'n ofynnol ar gyfer yr uned, a'r wybodaeth benodol sy'n ofynnol ar gyfer pob elfen.

Cyfarwyddyd Aseswr:

- Er mwyn dangos cymhwysedd, rhaid i'r ymgeisydd ddangos perfformiad cymwys yn gyson.
- Yn yr uned hon mae tystiolaeth ddaw o berfformiad yn ofynnol a dylai hyn fod yn brif ffynhonnell y dystiolaeth, ond yn aml bydd holi'r ymgeisydd neu ffurfiau eraill yn cefnogi hyn er mwyn casglu tystiolaeth o allu'r ymgeisydd i berfformio yn gymwys ar draws yr holl eitemau yn yr ystod a restrir.

E5. Sicrhau bod y pethau rydych chi'n eu gwneud yn lleihau risgiau i iechyd a diogelwch

Elfen 1: Nodi'r peryglon a gwerthuso'r risgiau yn eich gweithle

Meini Prawf Perfformiad:

Mae'n rhaid i chi sicrhau

- 1 eich bod yn enwi ac yn gwybod lle i ddod o hyd i'r bobl sy'n gyfrifol am iechyd a diogelwch yn y gweithle
- 2 eich bod yn nodi pa bolisiau yn y gweithle sy'n berthnasol i'ch arferion gweithio chi
- 3 eich bod yn nodi'r arferion gweithio hynny yn unrhyw ran o rôl eich swydd a allai achosi niwed i chi neu i bobl eraill
- 4 eich bod yn nodi'r agweddau hynny ar y gweithle a allai achosi niwed i chi neu i bobl eraill
- 5 eich bod yn gwerthuso arferion gweithio ac agweddau ar y gweithle a allai fod yn niweidiol i nodi pa rai allai fod â'r **risg** uchaf i chi neu i bobl eraill
- 6 eich bod yn rhoi gwybod i'r bobl sy'n gyfrifol am iechyd a diogelwch yn y gweithle am y peryglon hynny sy'n cyflwyno **risg** uchel
- 7 eich bod yn delio â pheryglon â **risgiau** isel yn unol â pholisiau'r gweithle a gofynion cyfreithiol

Datganiad Ystod:

Risgiau sy'n deillio o:

- I defnyddio a chynnal a chadw peiriannau neu gyfarpar
- II defnyddio deunyddiau neu sylweddau
- III arferion gweithio nad ydynt yn cydymffurfio â pholisiau sydd ar waith
- IV ymddygiad anniogel
- V torri pethau a cholli hylifau yn ddamweiniol
- VI ffactorau amgylcheddol

Gwybodaeth sy'n benodol i'r elfen hon:

Mae'n rhaid i chi wybod a deall:

- a polisiau y cytunwyd arnynt yn y gweithle mewn perthynas â rheoli risgiau i iechyd a diogelwch,
- b cyfrifoldebau am iechyd a diogelwch yn eich swydd-ddisgrifiad,
- c yr unigolion cyfrifol y dylid rhoi gwybod iddynt am faterion iechyd a diogelwch.

Gofynion Tystiolaeth

Rhaid darparu tystiolaeth i ddangos cymhwysedd wrth nodi peryglon mewn gweithgareddau gwaith neu agweddau o'r gweithle, ac wrth weithredu pan fyddwch wedi penderfynu p'un a yw perygl yn cyflwyno risg uchel ynteu risg isel.

E5. Sicrhau bod y pethau rydych chi'n eu gwneud yn lleihau risgiau i iechyd a diogelwch

Rhaid darparu tystiolaeth o berfformiad er mwyn ei chymharu â phob un o'r meini prawf perfformiad. Hefyd bydd angen bodloni'r aseswr bod gennych yr holl wybodaeth a dealltwriaeth sy'n ofynnol i berfformio yn gymwys mewn perthynas â'r holl eitemau yn yr ystod a restrir yn yr uned hon.

Mae'n rhaid i chi ddangos o'r ystod eich bod wedi:

- nodi o leiaf dau fath o **risg** sy'n deillio o'r rhai a restrir.

Rhaid darparu tystiolaeth o berfformiad a ddaw o arferion gweithio go iawn.

E5. Sicrhau bod y pethau rydych chi'n eu gwneud yn lleihau risgiau i iechyd a diogelwch

Elfen 2: Lleihau'r risgiau i iechyd a diogelwch yn eich gweithle

Meini Prawf Perfformiad:

Rhaid i chi sicrhau

- 1 eich bod yn cyflawni eich arferion gweithio yn unol â'r gofynion cyfreithiol
- 2 eich bod yn dilyn **polisiau** mwyaf diweddar **y gweithle** ar gyfer rôl eich swydd
- 3 eich bod yn cywiro'r risgiau iechyd a diogelwch hynny sydd o fewn eich gallu ac o fewn cwmpas cyfrifoldebau'ch swydd
- 4 eich bod yn rhoi gwybod i'r unigolion cyfrifol am unrhyw awgrymiadau ar gyfer lleihau risgiau i iechyd a diogelwch yn rôl eich swydd
- 5 na fydd eich ymddygiad personol yn y gweithle yn peryglu eich iechyd a'ch diogelwch eich hunan nac iechyd a diogelwch pobl eraill
- 6 eich bod yn dilyn **polisiau'r gweithle** a chyfarwyddiadau'r cyflenwr neu'r gweithgynhyrchwr ar gyfer defnyddio cyfarpar, deunyddiau a chynhyrchion yn ddiogel
- 7 byddwch yn rhoi gwybod am unrhyw wahaniaethau rhwng **polisiau'r gweithle** a chyfarwyddiadau'r cyflenwr neu'r gweithgynhyrchwr fel bo'n briodol
- 8 bod eich cyflwyniad personol yn y gwaith
 - yn sicrhau eich iechyd a'ch diogelwch eich hunan nac iechyd a diogelwch pobl eraill,
 - yn bodloni unrhyw ddyletswyddau cyfreithiol, ac
 - yn unol â **pholisiau'r gweithle**

Datganiad o Ystod:

Polisiau'r gweithle sy'n cwmpasu:

- I defnyddio cyfarpar a dulliau gweithio diogel
- II defnyddio sylweddau peryglus yn ddiogel
- III ysmegu, bwyta, yfed a chyffuriau
- IV beth i'w wneud os bydd argyfwng
- V cyflwyniad personol

Gwybodaeth sy'n benodol i'r elfen hon:

Mae'n rhaid i chi wybod a deall

- a y polisiau penodol yn y gweithle sy'n cwmpasu rôl eich swydd
- b cyfarwyddiadau cyflenwyr a gweithgynhyrchwyr ar gyfer defnyddio cyfarpar, deunyddiau a chynhyrchion yn ddiogel
- c arferion gweithio diogel ar gyfer rôl eich swydd eich hunan
- ch pwysigrwydd cyflwyniad personol wrth gynnal iechyd a diogelwch yn y gweithle
- d pwysigrwydd ymddygiad personol wrth gynnal iechyd a diogelwch chi'ch hunan ac iechyd a diogelwch pobl eraill
- dd pa risgiau y cewch chi eu cywiro a'r rhai rydych yn gyfrifol am eu cywiro
- e gweithdrefnau'r gweithle ar gyfer delio â risgiau nad ydych chi'n gallu delio â nhw

E5. Sicrhau bod y pethau rydych chi'n eu gwneud yn lleihau risgiau i iechyd a diogelwch

Gofynion Tystiolaeth:

Rhaid darparu tystiolaeth i ddangos cymhwysedd wrth leihau'r risg i iechyd a diogelwch.

Rhaid darparu tystiolaeth o berfformiad er mwyn ei chymharu â phob un o'r meini prawf perfformiad. Bydd angen bodloni'r aseswr bod gennych yr holl wybodaeth a dealltwriaeth sy'n ofynnol i berfformio yn gymwys mewn perthynas â'r holl eitemau yn yr ystod a restrir yn yr elfen hon.

Mae'n rhaid i chi ddangos tystiolaeth eich bod wedi dilyn o leiaf pedwar math o **bolisiau'r gweithle**.

Rhaid darparu tystiolaeth o berfformiad a ddaw o arferion gweithio go iawn.